

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
78/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
16/12/2020

Adolygiad o'r cymorth i bobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod yn ystod Covid-19

Adolygiad o'r cymorth i bobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod yn ystod Covid-19

Nerys Owens, Siân Williams a Hannah Browne Gott

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owens, N.; Williams, S. a Browne Gott, H. (2020)
Adolygiad o'r cymorth i bobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod yn ystod
Covid-19. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 78/2020.
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/adolygiad-or-cymorth-i-bobl-agored-i-niwed-nad-ydynt-ar-restr-warchod-yn-ystod-covid-19>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd
safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Nerys Owens

Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 8586

E-bost: nerys.owens@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cefndir.....	2
2.	Gwaith a gweithgareddau i gefnogi pobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod	3
3.	Effeithiau cadarnhaol Covid-19	16
4.	Capasiti yn y dyfodol	19
5.	Gwersi ehangach a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol	21

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol ym mis Awst 2020 ar ran Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
- 1.2 Nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am sut roedd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol yn darparu gwasanaethau i bobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod, gan gynnwys eu defnydd o wirfoddolwyr, a'u gallu i ehangu'r gwasanaethau pe bai'r galw'n cynyddu.
- 1.3 Cyflwynodd pob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru ymatebion i'r arolwg ac roedd 10 o'r rheini wedi paratoi eu hymatebion ar y cyd â'r cynghorau gwirfoddol sirol sy'n gweithredu yn eu hardal hwy. At hynny, cyflwynodd dau gyngor gwirfoddol sirol ymatebion unigol. Dadansoddwyd yr ymatebion i'r arolwg yn fewnol gan ymchwilyr cymdeithasol yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i nodi themâu allweddol a phrofiadau.
- 1.4 Mae gweddill y papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o dan y pynciau a ganlyn:
 - Gwaith a gweithgareddau i gefnogi pobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod
 - Effeithiau cadarnhaol Covid-19
 - Capasiti yn y dyfodol
 - Gwersi ehangach a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

2. **Gwaith a gweithgareddau i gefnogi pobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod**

Ymatebodd awdurdodau lleol a sefydliadau cymdeithas sifil yn gyflym i ddarparu cefnogaeth i'r bobl fwyaf agored i niwed ac ynysig

2.1 Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn cynnal y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig i'r rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed, yn ogystal ag eraill y nodwyd ac yr aseswyd bod angen help arnynt. Roedd pob awdurdod lleol yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol a'r rhai yn y trydydd sector i ddarparu'r cymorth hwn a phwysleisiodd llawer fod sicrhau bod y gwaith cydgysylltu'n briodol yn fater yr oedd angen rhoi sylw iddo ar fyrder yn ystod camau cynnar y pandemig, gan ei bod yn hanfodol nad oedd pobl agored i niwed yn cwmpo drwy fylchau yn y rhwyd ddiogelwch.

Parhau i ddarparu gwasanaethau craidd

Llwyddodd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol i barhau â'u gwasanaethau craidd ar gyfer preswylwyr ac unigolion sydd fwyaf agored i niwed yr oedd yn ofynnol iddynt hunanynysu, yn unol â chyngor a chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gwasanaethau gofal

2.2 Parhaodd gwasanaethau gofal i oedolion sydd angen cymorth neu sydd angen eu diogelu (gan gynnwys pobl sy'n gadael yr ysbyty a gofalwyr a'u teuluoedd) ond cawsant eu hailgynllunio a newidiwyd eu ffocws i ddarparu cymorth o bell, ar-lein a thros y ffôn. Adroddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod grŵp dementia lleol sy'n gweithredu yn y sir wedi sefydlu grwpiau WhatsApp a sgysiau Zoom wythnosol ar gyfer preswylwyr â dementia. Darparwyd cymorth wedi'i deilwra hefyd drwy grwpiau gofal y trydydd sector, wedi'i ategu gan gymorth gan wirfoddolwyr ar gyfer siopa, casglu presgripsiynau, galwadau lles ac i ddarparu cymorth cyffredinol yn y cartref.

2.3 Dywedodd nifer o awdurdodau lleol fod llawer o oedolion sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol yn eu hardaloedd wedi dewis dibynnu ar ofal anffurfiol a ddarperir gan roddwyr gofal teulu yn ystod y cyfyngiadau symud er mwyn lleihau'r nifer a oedd yn ymweld â'u cartrefi. Arweiniodd hyn at gynnydd dilynol yn y galw am gymorth gan y trydydd sector. Roedd bron pob awdurdod lleol wedi addasu ei wasanaethau cymorth gofal mewn ymateb i'r galw cynyddol drwy wella ei wybodaeth a'i gyngor, drwy ailhyfforddi staff y cyngor, drwy ddefnyddio rhagor o wirfoddolwyr a mwy o ddefnydd ar dechnoleg ddigidol, fel y dengys yr enghreifftiau a ganlyn:

- Daeth Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â nyrsys cymunedol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, gwasanaethau cymdeithasol ac aseswyr gofalwyr ynghyd - gan weithio'n agos â'r trydydd sector, timau gofal sylfaenol a gweithwyr iechyd meddwl - i nodi a chyfeirio gofalwyr at wasanaethau a chymorth. Roedd y cymorth penodol a ddarparwyd yn ystod y cyfyngiadau symud yn cynnwys helpu gofalwyr gyda strategaethau ymdopi a chyngor ar sut i gynnal a gwella eu llesiant corfforol ac emosiynol eu hunain, cynnal galwadau lles rheolaidd, dosbarthu bocsys bwyd a gweithgaredd i ofalwyr sy'n agored i niwed a chefnogi gofalwyr di-dâl i gael gafael ar gyfarpar diogelu personol gan y cyngor.
- Sefydlwyd Gwasanaeth Llesiant Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y cyfyngiadau symud i ddarparu llinell gymorth 24 awr i roi gwybodaeth a chyngor i ofalwyr a'u cyfeirio at adnoddau a chymorth cymunedol. Darparwyd y gwasanaeth a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru a weithiodd gyda grwpiau trydydd sector lleol i ddarparu cymorth ar faterion yn amrywio o gyngor ar gyllid, tai, mynediad at addysg, cyfleoedd hyfforddi neu gyflogaeth, i gynnal iechyd corfforol a llesiant emosiynol.
- Cyflwynodd sefydliadau sy'n darparu gofalwyr ledled Sir y Fflint alwadau 'cadw mewn cysylltiad' ar-lein neu dros y ffôn a chymorth ar unwaith i ofalwyr di-dâl, gan eu galluogi i gadw cysylltiad â sefydliadau a chadw cysylltiad â'i gilydd, a lleihau risgiau o ran unigrwydd ac ynysigrwydd. Adroddodd y sefydliadau cyflawni fod y gwasanaethau cymorth hyn wedi cael eu croesawu ac y byddent yn parhau i gael eu darparu fel rhan o'u cynnig craidd yn y dyfodol.
- Fe wnaeth tîm DementiaGo Cyngor Gwynedd, sy'n darparu sesiynau gweithgaredd corfforol i breswylwyr sy'n byw gyda dementia, gadw cysylltiad â gofalwyr drwy weithgareddau ar-lein a thros y ffôn, gan gynnwys sesiynau paned a chacen.
- Roedd y Gwasanaeth Cymorth Dementia a oedd yn cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn darparu gofal seibiant pwrpasol yn y cartref ar draws Ynys Môn i unigolion sy'n byw gyda dementia.
- Nododd nifer o awdurdodau lleol eu bod wedi parhau i ddarparu gwasanaethau gwarchod i deuluoedd a gofalwyr yn ystod y cyfyngiadau symud gan nodi cynnydd yn y galw am y gwasanaethau oherwydd bod gwasanaethau gofal seibiant ar gau.
- Cyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych broses grant newydd i sefydliadau gwirfoddol, a gydlynwyd gan ei Wasanaeth Cymorth Cymunedol, a oedd yn anelu at fod yn hyblyg ac

yn agored i syniadau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau. Drwy'r broses hon, darparwyd cyllid i brynu cyfarpar digidol a thanysgrifiadau er mwyn lleihau ynysigrwydd a gwella llesiant ymhlith y gymuned o ofalwyr.

- Hwylusodd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd weithdy Anableddau Dysgu i ofalwyr er mwyn clywed am eu profiadau o gael gafael ar gymorth yn ystod y pandemig a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Un o ganlyniad allweddol y sesiwn hon oedd sefydlu grwpiau cymorth newydd sy'n darparu cymorth digidol a thechnoleg i ofalwyr er mwyn gwella mynediad at wasanaethau amrywiol, gan gynnwys bwyd ac anghenion eraill, a chanllawiau ac adnoddau i unigolion sy'n dewis gofalu am eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain.

Gwasanaethau plant

- 2.4 Roedd wythnosau cyntaf y cyfyngiadau symud yn gyfnod o newid aruthrol, i blant a theuluoedd, ac i'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Dangosodd yr arolwg fod yr ymateb uniongyrchol i'r argyfwng yn cynnwys ymdrech anhygoel, gydag awdurdodau lleol, partneriaid amlasiantaeth, grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector yn ymateb yn gadarnhaol drwy ailfodelu eu darpariaeth a'u gwasanaethau a gweithio gydag ystod o bartneriaid er mwyn sicrhau bod cymorth effeithiol yn cael ei roi i deuluoedd agored i niwed.
- 2.5 Roedd yr arolwg yn darparu tystiolaeth ledled Cymru o ymarferwyr yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd ac ar draws ffiniau sefydliadol, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu'n brydlon a bod anghenion plant yn cael sylw.
- 2.6 Roedd awdurdodau lleol a sefydliadau mwy o faint yn y trydydd sector wedi blaenoriaethu diogelu a lles plant sy'n agored i niwed ac wedi parhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan newid y model darparu yn unol â chyfyngiadau'r llywodraeth ar gadw pellter cymdeithasol a chyswllt. Rhoddwyd blaenoriaeth i gyswllt wyneb yn wyneb â phlant a theuluoedd, ond gyda hyblygrwydd priodol o ran sut yr oedd hyn yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, lle nad oedd modd darparu cyswllt uniongyrchol yn ddiogel, caniatwyd ymweliadau ac asesiadau dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo, gyda'r nod o barhau i ddarparu cymorth i blant fel rhan o gynlluniau amlasiantaeth.
- 2.7 Roedd timau 'allgymorth' amlddisgyblaeth yn cael eu defnyddio mewn rhai awdurdodau i ddarparu gofal a chymorth ymarferol ac emosiynol i blant a'u teuluoedd. Adroddwyd bod y timau hyn yn ymateb i ystod o faterion, megis lefelau uwch o bryder ymysg plant a phobl ifanc a phryderon gan rieni ynghylch arian a mynediad at fwyd a hanfodion.

- 2.8 Er enghraifft, sicrhaodd Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr, sef y cyngor gwirfoddol sirol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyllid gan y Rhaglen Drawsnewid Ranbarthol i gyflogi llywiwr cymunedol wedi'i leoli o fewn hyb diogelu amlasiantaeth y cyngor i gefnogi'r teuluoedd mwyaf agored i niwed, ar adeg pan oedd gwasanaethau eraill (megis cymorth i deuluoedd ac ymwelwyr iechyd) dan bwysau oherwydd bod ganddynt lai o staff.
- 2.9 Yn yr un modd, nododd Cyngor Sir y Fflint gynnydd yng nghymhlethdod ac amllder galwadau drwy ei Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, yn ogystal â chynnydd enfawr mewn traffig i dudalennau gwe, yn ystod hanner cyntaf 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cymorth ar ffurf ymyrraeth gynnar i deuluoedd bregus yn cael ei ddarparu drwy'r Hyb Cymorth Cynnar, partneriaeth barhaus rhwng yr awdurdod lleol a phartneriaid allweddol o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- 2.10 Yng Ngheredigion, roedd rhith-grwpiau teulu a chyrsgiau ar gael i blant a theuluoedd ledled y sir, a darparwyd cymorth ychwanegol i deuluoedd nad oedd ganddynt fynediad at gyfarpar digidol. Nododd yr awdurdod lleol fod y sesiynau rhithwir wedi cael eu croesawu a bod niferoedd da yn bresennol ynddynt.
- 2.11 Nododd nifer o awdurdodau lleol fod systemau ar waith ar draws ysgolion, adrannau gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuencid a sefydliadau cymorth i deuluoedd i nodi a chefnogi dysgwyr agored i niwed nad oeddent yn gysylltiedig â gwasanaethau statudol. Fel rhan o'r gwaith hwn, roedd staff addysg mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yn cadw cysylltiadau â phlant a theuluoedd ar eu cofrestrau ysgol er mwyn darparu gweithgareddau dysgu pwrpasol a dosbarthu dyfeisiau a chyfarpar digidol personol lle bo angen. Mewn rhai achosion ategwyd y rhain gan alwadau lles neu ymweliadau â'r cartref.
- 2.12 Adroddodd awdurdodau lleol hefyd fod teuluoedd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r dulliau creadigol o ddarparu prydau ysgol am ddim a ddatblygwyd yn eu hardaloedd, yn bennaf drwy ddsbarthu bwyd neu ddarparu talebau a chymorth ariannol. Yn Sir y Fflint, darparwyd cymorth i blant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i sicrhau nad oeddent dan anfantais oherwydd bod ysgolion ar gau. Roedd hwn yn gynnig cychwynnol i ddsbarthu pecyn cinio i garreg y drws a fu'n gweithredu am saith wythnos yn ystod y cyfyngiadau symud gan symud ymlaen wedyn i fodel taliadau uniongyrchol a fu ar waith drwy gydol yr haf tan ddechrau'r tymor ysgol newydd ym mis Medi 2020.

Allgymorth rhagweithiol a phendant

Mabwysiadodd llawer o awdurdodau lleol ddull rhagweithiol ac 'allgymorth pendant' i adnabod preswylwyr ar restr warchod a phobl agored i niwed nad oeddent ar restr warchod ond a oedd dros 70 oed, a chysylltu â hwy

- 2.13 Cysylltwyd ag unigolion a'u hasesu dros y ffôn a chynigiwyd pecynnau cymorth pwrpasol iddynt a ddarperir gan ystod o sefydliadau partner o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr. Roedd prosesau ar waith hefyd i sicrhau bod unrhyw unigolion sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol am gymorth yn cael eu cyfeirio at gyngor a chymorth priodol neu'n cael cynnig cymorth o'r fath.
- 2.14 Roedd awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a chydlynu timau lleol (a elwir yn 'dimau ymateb ardal', 'cynlluniau cyfeillion', 'llyw-wyr cymunedol', 'cysylltwyr cymunedol', 'cydlynwyr asedau lleol') gan ddarparu cymorth i grwpiau o bobl agored i niwed nad ydynt ar restr warchod ac unigolion sy'n hunanynysu fel rhan o wasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru.
- 2.15 Sefydlodd Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys, gyda chefnogaeth Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a phartneriaid eraill, Dîm Ymateb Brys y Sector Cymunedol i gydlynu a chefnogi'r ymateb brys i bobl agored i niwed drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr ffurfiol ac anffurfiol. Roedd y tîm o wirfoddolwyr yn cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol yn uniongyrchol, gan gynnwys gofal cartref, preswyl a nyrsio, drwy ddarparu cymorth gyda mynd i siopa a chasglu meddyginiaeth, yn ogystal â gwasanaeth cyfeillio i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith preswylwyr agored i niwed.
- 2.16 Yn Rhondda Cynon Taf, sefydlwyd saith Canolfan Gymunedol ledled y sir ym mis Mawrth i ddarparu cymorth i breswylwyr ar restr y GIG o gleifion a warchodir a phobl agored i niwed dros 70 oed. Cysylltodd y timau â phob unigolyn a chyfateb eu hanghenion â gwirfoddolwyr lleol, grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector a oedd yn cynnig ystod o gymorth, gan gynnwys siopa, casglu presgripsiynau, mynd â chŵn am dro a gwasanaethau cyfeillio. Erbyn mis Mehefin, roedd dros 2,800 o drigolion agored i niwed yn y sir wedi cael cymorth gan y timau hyn a chysylltwyd â bron i 11,000 o drigolion a oedd ar y rhestr o gleifion a warchodir dros y ffôn a chynigiwyd cymorth iddynt.
- 2.17 Yn Sir Benfro, sefydlwyd hyb cymunedol amlasiantaeth yn cynnwys partneriaeth rhwng y cyngor gwirfoddol sirol, awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a Llesiant Delta (gwasanaeth amlswyddogaeth, ateb galwadau 24 awr sy'n gweithredu ledled de-orllewin Cymru). Roedd

yr hyb yn darparu siop un stop ar gyfer preswylwyr agored i niwed a oedd ar y rhestr o gleifion a warchodir neu sy'n hunanynysu ac yn paru'r rhai mewn angen â grŵp cymorth cymunedol ar gyfer ystod o dasgau, fel siopa a chasglu presgripsiynau. Roedd hefyd yn darparu atebion pwrpasol i gefnogi cyswllt â theuluoedd ar ddiwedd oes ac atgyfeiriadau at sefydliadau statudol.

- 2.18 Roedd Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr yn rheoli cronfa o wirfoddolwyr yn uniongyrchol a weithiodd yn agos gyda Llyw-wyr Cymunedol a sefydliadau cymunedol a'r trydydd sector ledled y sir i ymateb i anghenion amrywiol o fewn cymunedau, fel darparu cymorth ar gyfer siopa, casglu presgripsiynau, talebau banc bwyd, gwasanaethau cyfeillio ac ymweliadau lles â thrigolion agored i niwed. Mae'r cynllun Llyw-wyr Cymunedol yn cwmpasu'r sir gyfan ac yn cael ei ariannu drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru.
- 2.19 Roedd gwasanaeth Cyswllt Cymunedol Môn sy'n gweithredu ar Ynys Môn ac a gydlynir gan Medrwn Môn yn gweithredu fel un pwynt cyswllt i drigolion agored i niwed gael gwybodaeth a chynghor am sefydliadau'r trydydd sector a'r cymorth a ddarperir yn eu hardaloedd lleol. Dosbarthodd y cynllun, mewn partneriaeth â'r timau cymorth ardal dan arweiniad gwirfoddolwyr, 1,800 o bresgripsiynau i breswylwyr agored i niwed, cynhaliodd 8,426 o alwadau 'cadw mewn cysylltiad' a gwnaeth 160 o atgyfeiriadau i fanciau bwyd yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cynnig cymorth drwy'r cynllun 'Tro Da', gwasanaeth cludiant cymunedol lleol wedi'i arwain gan wirfoddolwyr sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr a ddefnyddiodd eu ceir eu hunain i ddarparu mynediad at apwyntiadau meddygol a siopa a gwasanaethau eraill i drigolion agored i niwed ledled Ynys Môn. Yn ystod y cyfnod o 20 wythnos o ddechrau'r cyfyngiadau symud hyd at yr wythnos gyntaf ym mis Awst, hwyluswyd dros 12,000 o 'droeon da' ar gyfer 1,689 o drigolion ledled y sir.
- 2.20 Yn gyffredinol, nododd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol fod y mecanweithiau cymorth hyn wedi cael eu croesawu yn eu hardaloedd. Nododd llawer eu bod yn galluogi brysbennu effeithiol ac atgyfeiriadau at wasanaethau priodol, eu bod yn fwy ymatebol i anghenion y gymuned ac yn darparu mwy o eglurder, gan ei gwneud yn haws i breswylwyr nodi lle roedd angen iddynt fynd i gael cymorth a chael gafael ar y cymorth hwnnw'n gyflym. Fe wnaethant hefyd alluogi gwirfoddolwyr a staff y cyngor a adleoliwyd i ddarparu cymorth lefel is (megis dosbarthu bocsys bwyd a nwyddau ar garreg y drws, gwasanaethau casglu a dosbarthu presgripsiynau, gwasanaethau cyfeillio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb), gan ryddhau darparwyr gwasanaethau dan gontract i barhau i gefnogi'r rhai ag anghenion dwysach.

Cymorth cyfeirio

Roedd bron pob awdurdod lleol yn mapio'n barhaus y gwasanaethau cymorth lleol a chenedlaethol a ddarparwyd gan wasanaethau cyhoeddus, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol er mwyn darparu cyfeirlyfrau a dewislenni cyfoes ar hafan gwefannau'r cyngorau.

- 2.21 Nododd nifer o gynghorau gwirfoddol sirol hefyd eu bod yn darparu cyngor a gwybodaeth i sefydliadau'r trydydd sector a chymunedol yn eu hardaloedd drwy fforymau rhithwir, cyrsiau hyfforddi ar-lein a dogfennau briffio. Er enghraifft, roedd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot wedi parhau i hwyluso nifer o fforymau'r trydydd sector, gan gynnwys Fforwm Strategol y Trydydd Sector, Fforwm Plant a Phobl Ifanc Sector Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a Fforwm Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol. Roedd y fforymau, sy'n agored i bob sefydliad yn y trydydd sector sydd wedi'u lleoli neu'n gweithredu yn ardal Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol, wedi symud ar-lein ers dechrau'r pandemig ac wedi galluogi sefydliadau i drafod neu ofyn am gyngor ar faterion yn ymwneud â Covid-19, rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid allweddol a grwpiau ehangach, a chydweithio i gefnogi preswylwyr agored i niwed.
- 2.22 Yn ogystal, mewn ymateb i alw cynyddol gan grwpiau trydydd sector a chymunedol am gyfleoedd cyfeirio, mynediad at gyllid a chyngor ar iechyd a diogelwch, datblygodd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd gyfres o gyrsiau ar-lein a dogfennau briffio ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:
- Cefnogi pobl sy'n agored i niwed ac mewn perygl;
 - Gwirfoddoli a gweithio gyda gwirfoddolwyr;
 - Cyllid a chymorth i grwpiau;
 - Canllawiau a Chymorth i grwpiau a sefydliadau sy'n bwriadu dychwelyd i'r gweithle neu fod yn agored i'r cyhoedd;
 - Cwestiynau Cyffredin am Lacio'r Cyfyngiadau Symud (yn dilyn sesiwn ar ailagor swyddfeydd a gwasanaethau).

Cymorth ar gyfer cynhwysiant digidol

Dywedodd bron pob awdurdod lleol fod y cyfyngiadau symud wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cynhwysiant digidol

- 2.23 Mewn ymateb i hynny, roedd nifer o awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol wedi cymryd camau ymarferol i fynd i'r afael ag allgáu digidol yn eu priod ardaloedd. Ers dechrau'r pandemig, roedd llawer o'r gwasanaethau cymorth a'r sesiynau rhyngweithio cymdeithasol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r trydydd sector wedi symud ar-lein, ac arweiniodd hynny at ddefnydd cynyddol o'r rhyngwrwd a phlatfformau fideo-gynadledda ar-lein i alluogi pobl i gael mynediad at yr help a'r wybodaeth a chynghor sydd eu hangen i ymdopi â'r argyfwng.
- 2.24 Ac eto, nododd llawer o awdurdodau lleol nad oedd rhannau helaeth o'u poblogaethau yn gallu cael mynediad at wasanaethau hanfodol ar-lein, megis dod o hyd i wybodaeth gywir a chyfoes, cael gafael ar gyngor a gwasanaethau iechyd lleol, a phrynu hanfodion ar-lein, neu gysylltu â theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymorth. Roedd hyn yn aml oherwydd nad oedd y preswylwyr hyn yn berchen ar ddyfeisiau neu'n gallu eu fforddio, am nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngwrwd na data symudol, neu am nad oedd ganddynt y sgiliau i ymdopi â chyfathrebu ar-lein.
- 2.25 Adroddwyd yn eang bod pobl hŷn a grwpiau incwm isel yn llai tebygol o fod yn berchen ar gyfarpar a dyfeisiau digidol addas fel cyfrifiadur, gliniadur, dyfais llechen neu ffôn clyfar ac yn llai tebygol o allu fforddio pecynnau data rhyngwrwd neu ffôn symudol. Oherwydd bod llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau cymunedol lleol ar gau, nodwyd bod diffyg mynediad at ddarpariaeth amgen. Dywedodd awdurdodau fod nifer fawr o aelwydydd â phlant hefyd heb fynediad at ddyfeisiau a chyfarpar electronig, a oedd yn cyfyngu'n ddifrifol ar ddysgu gartref, yn ogystal ag ar ryngweithio cymdeithasol.
- 2.26 Amlygwyd cyfyngiadau mewn cysylltedd band eang a signal cellog symudol a diffyg sgiliau digidol a hyder gyda thechnoleg ddigidol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth hŷn fwy agored i niwed ac ynysig, fel problem benodol mewn ardaloedd gwledig. Pwysleisiodd nifer o awdurdodau gwledig fod y materion hyn, ynghyd â'r diffyg mynediad at gyfarpar digidol priodol wedi golygu bod llawer o bobl agored i niwed wedi methu â manteisio ar y cymorth a oedd ar gael ar-lein neu wedi dewis peidio â gwneud hynny.
- 2.27 Yn wyneb y rhwystrau hyn, datblygodd llawer o awdurdodau a grwpiau cymunedol a grwpiau trydydd sector fentrau creadigol wedi'u hanelu at leihau allgau digidol drwy wella mynediad i'r rhyngwrwd, cynyddu'r technolegau digidol a chynorthwyol a oedd ar gael mewn cymunedau lleol, a darparu cymorth wedi'i bersonoli i helpu pobl agored i niwed i ddatblygu eu sgiliau digidol a deall manteision mynd ar-lein. Yn aml, trefnwyd y mentrau hyn o fewn cyfnodau byr iawn. Amlygodd yr arolwg fentrau i ddarparu mynediad at dechnoleg ddigidol

er mwyn cyflenwi dyfeisiau i grwpiau agored i niwed er mwyn eu galluogi i aros yn annibynnol a rheoli eu bywydau beunyddiol yn ystod y pandemig.

- 2.28 Roedd Cyngor Ynys Môn, mewn partneriaeth ag Age Cymru Gwynedd a Môn a Medrwn Môn, wedi sicrhau cyllid i ddatblygu rhaglen rhith-hybiau cymunedol ochr yn ochr â'r hybiau cymunedol a thimau cymorth ardal, gan ganiatáu i breswylwyr agored i niwed ac ynysig gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ar-lein, teithiau rhithwir o amgylch tirnodau lleol a digwyddiadau ar-lein. Yr adeg y cynhaliwyd yr ymchwil, roedd y rhaglen wedi dosbarthu 120 o ddyfeisiau electronig a bwndeli data 90 diwrnod i aelodau o'r hybiau nad oedd ganddynt gysylltiad â'r rhyngwrdd, ac roedd yn darparu cymorth digidol ar-lein ac ar y ffôn drwy 'hyrwyddwyr digidol'. Rôl y gwirfoddolwyr hyn oedd rhannu a throsglwyddo eu sgiliau digidol, darparu cyngor cyffredinol, megis sut i ddefnyddio dyfais llechen a gosod a defnyddio meddalwedd galwadau fideo a negeseua, a hefyd cynyddu hyder y rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd mynd ar-lein. Fe wnaethant hefyd ddarparu sesiynau rhyngweithio cymdeithasol i drigolion gwledig agored i niwed ac ynysig.
- 2.29 Yn ogystal â diwallu anghenion ymarferol pobl, roedd sefydliadau a grwpiau cymunedol a thrydydd sector a thimau awdurdodau lleol yn Sir Benfro a Sir Fynwy yn cyflwyno prosiectau a oedd yn anelu at leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymhlith trigolion gwledig agored i niwed. Roedd y prosiectau newydd hyn yn galluogi pobl i gadw mewn cysylltiad ar-lein ac yn aml cawsant eu datblygu a'u cyflwyno o fewn amserlenni byr.

Gwirfoddoli

Ymddengys fod y pandemig wedi cynyddu lefelau gwirfoddoli yn lleol

- 2.30 Nododd yr arolwg fod gwirfoddolwyr yn cynnig eu hamser yn anffurfiol, yn ogystal â thrwy sefydliadau trydydd sector a chymunedol, a'u bod yn chwarae rhan hanfodol o ran estyn allan at bobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Roedd y pandemig wedi arwain at fwy o wirfoddoli a mathau newydd o wirfoddoli, gan gynnwys:
- Cymorth gwirfoddoli anffurfiol ar lefel cymuned lleol neu mewn ardal lleol;
 - Gwirfoddoli ffurfiol drwy grwpiau cymunedol a grwpiau'r trydydd sector.
- 2.31 Awgrymodd dau awdurdod lleol gwledig fod rolau gwirfoddoli yn eu hardaloedd wedi dod yn llai strwythuredig ac wedi'u hymwreiddio'n fwy mewn cymunedau lleol yn ystod y pandemig, gyda thrigolion yn dewis gwirfoddoli'n anffurfiol i gefnogi cymdogion yn hytrach na thrwy strwythurau mwy ffurfiol wedi'u harwain gan yr awdurdod lleol neu sefydliadau'r trydydd sector. Roedd yn ymddangos bod pwyslais cryf ar gymorth a gweithgareddau wedi'u

harwain gan y gymuned yn y ddau awdurdod hyn, fel y gwelwyd wrth gyflwyno'r cynllun 'Tro Da' yn Ynys Môn a'r ymgyrch 'Cysylltu â Charedigrwydd' yn Sir Benfro.

- 2.32 Ymddengys fod cefnogaeth ehangach i wirfoddoli hefyd wedi cynyddu yn ystod yr argyfwng, gydag enghreifftiau yn cael eu rhoi yn yr arolwg o weithwyr ar ffyrlo yn rhoi o'u hamser i weithio fel gwirfoddolwyr a staff awdurdodau lleol hefyd yn cael eu hannog i wirfoddoli y tu allan i'w rolau arferol.
- 2.33 Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi ymgymryd â'r rôl o gydlynu gwaith gwirfoddoli ffurfiol ar lefel leol, gan weithio'n agos â sefydliadau a grwpiau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol yn eu hardaloedd. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, er enghraifft drwy ymgyrchoedd recriwtio wedi'u harwain gan awdurdodau lleol, cynghorau gwirfoddol sirol, grwpiau cymunedol a chyd-gymorth a thrwy wefan Gwirfoddoli Cymru. Adeg cynnal yr arolwg, nododd deg awdurdod lleol ac un cyngor gwirfoddol sirol bod ganddynt fwy o wirfoddolwyr nag yr oedd eu hangen, a nododd wyth awdurdod lleol arall bod ganddynt ddigon o wirfoddolwyr yn eu hardaloedd, ond nid gormodedd ohonynt.
- Grwpiau wedi'u hunandrefnu neu grwpiau cyd-gymorth*
- 2.34 Nododd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol fod grwpiau o bobl wedi dod at ei gilydd i gefnogi aelodau agored i niwed yn eu cymuned leol.
- 2.35 Roedd rhai o'r grwpiau hyn wedi'u sefydlu mewn ymateb i'r argyfwng, tra bod eraill yn bodoli cyn y pandemig ond wedi esblygu eu hamcanion allweddol er mwyn trefnu cymorth cymunedol. Roedd eu gweithgareddau'n amrywio; roedd rhai o'r grwpiau wedi trefnu gweithgareddau cymdeithasol ar-lein fel boreau coffi ar-lein wythnosol, sesiynau coginio a gwasanaethau dal i fyny cyffredinol a chyfeillio dros y ffôn i gyrraedd pobl ynysig ac unig yr oedd angen help arnynt, ac roedd eraill yn cynnig cymorth ymarferol ar gyfer siopa, casglu presgripsiynau, mynd â chŵn am dro a diwrnodau allan i unigolion a oedd wedi bod yn gwarchod eu hunain.
- 2.36 Ym Mhowys, roedd 112 o grwpiau cymorth Covid-19 rhwng mis Mawrth a mis Awst, gyda chymorth Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys. Roedd y grwpiau wedi datblygu'n organig ac roedd y math o gymorth a ddarparwyd yn seiliedig ar rwydweithiau a oedd eisoes ar waith ledled y sir. Yn yr un modd, sefydlwyd dros 100 o grwpiau cymorth cymunedol ledled Sir Benfro ynghyd â Rhwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro, ill dau yn cael eu cefnogi gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.
- 2.37 Yn Wrecsam, sefydlwyd rhwydweithiau cymunedol o fewn y cymunedau Pwylaidd a Phortiwgeaidd ac ers dechrau'r pandemig, roedd 22 o gynlluniau darparu bwyd wedi'u

sefydlu i ddsbarthu parseli bwyd i breswylwyr a oedd ar restr warchod ac i deuluoedd agored i niwed ledled y sir. Dim ond pedwar o'r cynlluniau a oedd wedi bod ar waith cyn y pandemig.

- 2.38 Yng Nghaerdydd, sefydlwyd nifer o grwpiau cyd-gymorth yn gyflym ledled y ddinas ar ddechrau'r pandemig, gan gynnwys Cardiff Covid-19 Mutual Aid Network; Pentwyn & Llanederyn Covid-19 Help; Llanishen Good Neighbours a Rumney Coronavirus Support Group.
- 2.39 Nododd nifer o awdurdodau gwledig hefyd fod busnesau lleol, fel siopau pentref a chigyddion, hefyd yn parhau i gynnig cymorth fel danfon nwydd hanfodol i ddiwallu'r galw am gymorth yn eu hardaloedd lleol.

Cyfathrebu

Defnyddiodd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol ystod eang o sianeli cyfathrebu i ledaenu negeseuon allweddol dwyieithog a hawdd eu darllen i breswylwyr

- 2.40 Roedd y sianelau cyfathrebu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol yn cynnwys:
- Cyfryngau digidol - fideos, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol
 - Cyfryngau print - llyfrynau gwybodaeth wedi'u dosbarthu i aelwydydd lleol (Ynys Môn), gwirfoddolwyr yn dosbarthu cardiau galw (Ynys Môn), rhannu cardiau 'cymydog da' o ddrws i ddrws (Merthyr), aelodau etholedig yn rhannu taflenni (RhCT), ffeithluniau
 - Cyfryngau darlledu (datganiadau i'r cyfryngau a hysbysebion radio / digidol a'r wasg leol)
 - Roedd gwefannau cynghorau yn ffynonellau gwybodaeth allweddol i breswylwyr yn ystod y pandemig, gan ddarparu diweddariadau dyddiol ar gymorth yn ymwneud â Covid-19; cyfeirlyfrau gwasanaethau cymorth lleol a gwybodaeth am gyllid grant
 - Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel y byrddau iechyd lleol, heddluoedd Cymru a chynghorau tref a chymuned i ledaenu gwybodaeth, a hefyd partneriaid cymorth gwirfoddol / cymunedol drwy ddefnyddio sianeli cyfathrebu'r cyngor i rannu gwybodaeth.

Newidiadau yn y cymorth a ddarparwyd ar ôl y cyfyngiadau symud

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, adroddwyd bod cwmp mewn ceisiadau am gymorth gan wasanaethau fel gwasanaethau cyfeillio, galwadau cadw mewn cysylltiad a dosbarthu bocsys bwyd a phresgripsiynau

- 2.41 Roedd llawer o'r timau cymorth ardal neu'r hybiau cymunedol a sefydlwyd i ddarparu cefnogaeth yn ystod y cyfyngiadau symud yn bwriadu parhau drwy gydol yr hydref a'r gaeaf, ond gyda llai o gapasiti. Er enghraifft, darparu cymorth wedi'i arwain gan wirfoddolwyr am ddim ond rhan o'r wythnos neu gymorth sy'n canolbwyntio ar y preswylwyr mwyaf agored i niwed neu'r rhai y mae'n rhaid iddynt hunanynysu fel rhan o'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu.
- 2.42 Ochr yn ochr â hyn, nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod yn cyfeirio preswylwyr agored i niwed at wasanaethau cymorth sydd ar gael yn eu hardaloedd ac yn annog mwy o ddibyniaeth ar deulu a ffrindiau a chymorth gan y gymdogaeth i'w helpu i ddychwelyd i fyw yn annibynnol. Roedd rhai gweithgareddau allweddol yn cynnwys cymorth 'dal llaw' i'r rhai a oedd yn llai hyderus; helpu unigolion i ailgysylltu â rhwydweithiau cymorth blaenorol; arweiniad a chyfeirio at wasanaethau arbenigol, gan gynnwys cymorth ariannol, cyfeillio ac iechyd meddwl; a chymorth gyda datblygu sgiliau digidol a llythrennedd.
- 2.43 Adroddwyd bod gwasanaethau gofal seibiant ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys gweithgareddau â chymorth mewn canolfannau dydd a lleoliadau cymunedol eraill a gafodd eu hatal dros dro yn ystod y cyfyngiadau symud, yn dychwelyd i 'normal newydd', gyda dull graddol o ailagor a llai o gapasiti er mwyn sicrhau bod gofynion cadw pellter cymdeithasol yn cael eu bodloni. Roedd rhai awdurdodau lleol yn awyddus i aildechrau darparu gwasanaethau gofal seibiant preswyl drwy gynnig nifer cyfyngedig o seibiannau byr o fewn y sir i oedolion a phlant yn ystod hydref 2020.
- 2.44 Yn Sir y Fflint, ailagorwyd gwasanaethau gofal tymor byr a gofal dydd i breswylwyr o dan 65 oed, yn enwedig y rhai a gefnogir gan wasanaethau Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl, o ddiwedd mis Awst. Adroddwyd bod y trefniadau newydd yn gweithio'n dda, gyda nifer lai o staff cymorth yn diwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai ag anghenion cymhleth ac yn darparu seibiant i deuluoedd a gofalwyr. Yn sir Caerffili, roedd y ddarpariaeth cymorth dydd bresennol yn cael ei had-drefnu er mwyn sicrhau y byddai gwasanaethau seibiant i oedolion a phlant yn aros ar agor i ofalwyr cymorth pe bai ail don.
- 2.45 Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol yn awgrymu bod y cyfyngiadau symud a'r mesurau a'r polisïau cysylltiedig a gyflwynwyd i reoli'r pandemig yn cael effaith economaidd-gymdeithasol anghymesur ar y grwpiau mwyaf agored i niwed yn eu hardaloedd. Nododd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol

gynnydd yn y galw am gymorth arbenigol, nid yn unig gan unigolion a ddiffiniwyd fel pobl agored i niwed neu risg uchel gan Covid-19 ar sail feddygol, ond gan unigolion a oedd yn agored i niwed oherwydd ffactorau risg lluosog a chymhleth. Roedd y ffactorau hyn yn amrywio o oedran, dibyniaeth ar sylweddau, iechyd meddwl gwael, diweithdra, ansicrwydd ariannol i ansefydlogrwydd yn ymwneud â thai o ganlyniad i gostau tai uchel, tai o ansawdd gwael, amgylcheddau cartref ansefydlog a thai gorlawn neu ddigartrefedd.

- 2.46 Awgrymwyd bod natur y cymorth a ddarperir yn newid, gyda chynghorau gwirfoddol sirol yn nodi cynnydd yn y galw am gymorth iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith plant, pobl ifanc a'r boblogaeth hŷn, a'r rhai a effeithir gan brofedigaeth, ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Roedd peth tystiolaeth anecdotaidd hefyd o gynnydd yn y galw am wybodaeth a chynghor ynghylch cyllid a dyled, gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai a chymorth gan fanciau bwyd mewn sawl sir.
- 2.47 Roedd nifer o awdurdodau lleol yn rhagweld rhagor o bwysau yn yr ardaloedd hyn yn ystod y misoedd i ddod a mynegwyd pryder ynghylch gallu gwasanaethau i addasu i'r cynnydd yn y galw. Roedd sefydliadau'r trydydd sector ym Merthyr Tudful yn datblygu dulliau newydd i ymateb i'r cynnydd yn y galw am gyflenwadau bwyd brys, er enghraifft drwy ddatblygu pantris cymunedol ledled y sir a defnyddio cydweithfeydd bwyd symudol mewn wardiau gwledig y mae trafnidiaeth gyhoeddus wael a gwasanaethau cyfyngedig yn effeithio arnynt.

3. Effeithiau cadarnhaol Covid-19

- 3.1 Nododd yr arolwg fod y pandemig a'i fesurau cysylltiedig wedi arwain at rai newidiadau cadarnhaol i waith a gweithgareddau sefydliadau, cyrff a grwpiau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal ag i ymddygiad y preswylwyr a'r cymunedau yr oeddent yn gweithio ynddynt.

Cydlyniant rhwng gwasanaethau statudol a'r trydydd sector

Nododd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol well trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus a chyrff y trydydd sector

- 3.2 Mae'r arolwg wedi nodi bod cyrff y sector cyhoeddus ar lefel leol a chenedlaethol, a'r sefydliadau a grwpiau cymunedol a thrydydd sector, i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nod cyffredin o ddarparu cymorth i'r rhai oedd ei angen.
- 3.3 Nododd Cyngor Sir y Fflint fod timau'n cydweithio ar draws gwahanol adrannau o fewn yr awdurdod ac yn gweithio'n agosach â'r gymuned a'r trydydd sector yn ystod y pandemig i sicrhau bod cymorth ar gael i bobl agored i niwed.
- 3.4 Roedd Menter Môn wedi gweithio'n agos gyda'r tîm Profi, Olrhain, Diogelu Lleol yng Nghyngor Sir Ynys Môn i sicrhau bod llwybrau atgyfeirio clir ar waith ar gyfer unigolion y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu. Nododd yr awdurdod hefyd gydweithrediad agos rhwng clystyrau meddygon teulu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu ymyriadau rhagnodi cymdeithasol er mwyn cysylltu cleifion mewn gofal sylfaenol â ffynonellau cymorth yn y gymuned, gyda'r nod o gefnogi adferiad cymdeithasol cymunedau.
- 3.5 Yng Nghaerdydd, roedd ystod eang o sefydliadau, elusennau a grwpiau cymunedol newydd a sefydledig wedi gweithio'n agos gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddarparu cymorth yn ystod y pandemig. Sefydlwyd Sefydliad Angori ar gyfer Gwirfoddolwyr gan yr awdurdod lleol ym mis Mawrth i fapio darpariaeth a nodi bylchau yn y cymorth i bobl agored i niwed ledled y ddinas. Roedd y grŵp yn parhau i gwrdd i rannu gwybodaeth a rhoi arweiniad i sefydliadau a grwpiau bach lleol ar faterion yn amrywio o ddiogelu ac asesiadau risg i gyfleoedd cyllido a hyfforddi. Ymhlith yr aelodau roedd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE), Women Connect First a Chanolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-Afon.
- 3.6 Ymhlith y manteision eraill y soniwyd amdanynt roedd gweithio'n fwy effeithlon, ac addasu arferion gwaith arferol er mwyn elwa ar fwy o ddefnydd o dechnoleg.

- 3.7 Soniodd sawl awdurdod lleol fod yr hyblygrwydd ychwanegol a ganiateir drwy Ddeddf y Coronafeirws 2020 wedi eu galluogi i ymateb yn gyflym i anghenion a blaenoriaethau sy'n newid. Fe wnaethant adrodd bod llai o fiwrocratiaeth a phrosesau symlach wedi hwyluso camau cyflym ac effeithiol yn eu priod ardaloedd a hefyd wedi galluogi adnoddau i gael eu hailgyfeirio / dargyfeirio i wasanaethau hanfodol.
- 3.8 Yng Nghaerdydd, cymerodd yr awdurdod lleol gamau ar ddechrau'r pandemig i fynd i'r afael â'r angen uniongyrchol i ddarparu llety mwy addas ar frys i unigolion sengl a chyplau digartref. Cafodd dau westy yng nghanol y ddinas eu harchebu mewn bloc o ddiwedd mis Mawrth tan ddiwedd mis Mehefin i greu darpariaeth tai â chymorth ychwanegol er mwyn diwallu anghenion poblogaeth ddigartref, agored i niwed y ddinas, y mae gan lawer ohonynt anghenion cymhleth a nifer o broblemau, megis camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl.
- 3.9 Roedd yr awdurdod lleol yn parhau â'i ymdrechion i fanteisio ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfyngiadau symud i gefnogi'r rheini sy'n ddigartref ac yn byw ar y stryd yn y ddinas. Ym mis Medi 2020, roedd yr awdurdod yn bwriadu rhoi cam cyntaf ei strategaeth adfer ar waith drwy agor uned newydd a oedd yn cynnwys 42 o fflatiau ac roedd wedi llofnodi cytundeb gyda'r Gymdeithas Hostelau leuencid i barhau i ddefnyddio ei westy yng nghanol y ddinas tan fis Rhagfyr 2020, gyda'r opsiwn o gael estyniad pellach tan fis Mawrth 2021 yn amodol ar gyllid.
- 3.10 Adroddodd awdurdodau lleol hefyd fod datblygiadau mewn trefniadau gweithio ystwyth ac effeithlonrwydd gweithio gartref a'r defnydd effeithiol o TG, ynghyd â gwell defnydd o gyfryngau cymdeithasol, wedi galluogi creu cysylltiadau cryfach â lleoliadau gofal sylfaenol, y gymuned iechyd a gofal ehangach a chymunedau lleol.
- 3.11 Roedd datblygiadau digidol wedi galluogi awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol a thrydydd sector i gyrraedd ystod ehangach o unigolion, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn ymwneud â gwasanaethau o'r blaen a'r rhai nad oeddent yn ymwneud â gweithgareddau ar-lein. Er enghraifft, bu Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru i gydlynu cyfres o ddigwyddiadau ar-lein fel rhan o wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin 2020, a ymgysylltodd yn llwyddiannus â gofalwyr newydd nad oeddent wedi defnyddio gwasanaethau o'r blaen ar lefel leol neu sirol.
- 3.12 Nododd un awdurdod fod y pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael â phrofiadau preswylwyr agored i niwed o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol drwy gamau fel gwasanaethau cyfeillio ac ymweliadau a galwadau cadw mewn cysylltiad, na chawsant eu darparu cyn yr argyfwng oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau.

- 3.13 Nododd nifer o awdurdodau lleol fod plant a theuluoedd wedi ymateb yn arbennig o gadarnhaol i'r defnydd o gyswllt digidol, a oedd mewn sawl achos wedi eu galluogi i gynyddu a chadw cysylltiad. Pwysleisiodd un awdurdod, er na fyddai hyn byth yn disodli'n llwyr waith wyneb yn wyneb uniongyrchol ac ymarfer arsylwi, ei fod wedi darparu gwersi pwysig ynghylch sut y gallai'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ddod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio technoleg ddigidol fel rhan integredig o'u gwaith.
- 3.14 Nododd Cyngor Sir Sir y Fflint fod proffil ei sianeli digidol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig a'i fod wedi galluogi'r cyngor i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau cymorth yn gyflym ac annog mentrau fel Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes, ceisiadau am lety i weithwyr allweddol, ceisiadau am daliadau prydau ysgol am ddim, Datganiadau Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer Cyfraddau Ardrethi Annomestig a Chynllun Chwarae 2020, pob un ohonynt yn denu niferoedd cynyddol o geisiadau ac wedi'u gordanysgrifio.

Cyfalaf cymdeithasol a chydlyniant cymunedol

Roedd profiad cyffredin ymhlith awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol o'r pandemig fel catalydd ar gyfer mwy o gydlyniant cymunedol

- 3.15 Er bod yr arolwg yn dangos tystiolaeth o lefelau uwch o unigrwydd ac ynysigrwydd ymhlith grwpiau agored i niwed yn ystod y pandemig, darparodd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol lu o enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol ar gymorth cymunedol a chryfhau clymau cymdeithasol mewn cymunedau.
- 3.16 Fel y soniwyd eisoes, roedd tystiolaeth gref hefyd o gynnydd mewn parodrwydd i wirfoddoli ac i gadw llygad ar ei gilydd. Roedd hyn yn cynnwys pethau fel pobl yn cefnogi eu cymdogion drwy siopa am fwyd neu gasglu presgripsiynau, mwy o roddion i fanciau bwyd a chefnogi defnydd ehangach o wasanaethau digidol ymysg pobl hŷn . Adroddodd nifer o awdurdodau lleol hefyd fod cymunedau yn eu hardaloedd a oedd â chefnogaeth dda ac wedi'u grymuso cyn dyfodiad y pandemig yn fwy gwydn ac yn llai dibynnol ar gymorth allanol.

4. Capasiti yn y dyfodol

Nododd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol eu bod wedi datblygu gwasanaethau ac ymatebion yn ystod y chwe mis diwethaf y gellid eu hehangu ar fyr rybudd pe bai angen

- 4.1 Nododd y ddau gyngor gwirfoddol sirol a roddodd ymatebion unigol i'r arolwg fod ganddynt brosesau a'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi cyrff cyhoeddus a chyrff y trydydd sector a grwpiau cymunedol lleol i gynyddu eu gweithgareddau pe bai ail don.
- 4.2 Nododd pob awdurdod lleol ei fod yn paratoi cynlluniau adfer mewn partneriaeth agos â phartneriaid allweddol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol a'r trydydd sector yn eu hardaloedd. Roedd y meysydd gwaith a oedd yn cael eu blaenoriaethu yn y cynlluniau hyn yn cynnwys:
- strategaethau recriwtio a chadw staff, fframweithiau adleoli staff a gwaith parhaus i gadw a recriwtio gwirfoddolwyr (gan gynnwys staff awdurdodau lleol mewnol, staff y Bwrdd Iechyd Lleol a gwirfoddolwyr cymunedol allanol);
 - cryfhau partneriaethau presennol ac adeiladu arnynt; a
 - nodi gwersi a ddysgwyd o don gyntaf y pandemig a rhannu arfer gorau i sicrhau bod newidiadau cadarnhaol wedi'u hymgorffori mewn strwythurau darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- 4.3 Yn Sir Benfro, cydnabuwyd bod gweithgaredd y gymuned a'r trydydd sector yn allweddol i adferiad y sir yn y dyfodol, gyda sefydliadau a grwpiau'n cael eu hannog i dreialu ffyrdd arloesol o gefnogi preswylwyr a chymunedau yn ystod y cyfnod adfer, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod yr argyfwng. Roedd cyllid ar gael i gefnogi'r gwaith hwn drwy Covid-19 - Cronfa Cefnogi Camau Cymunedol, a sefydlwyd ar ddechrau'r pandemig gyda chefnogaeth ar y cyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd yr ail rownd o gyllid o'r cynllun, a gafodd gefnogaeth ychwanegol gan Comic Relief, ar gael ym mis Awst ac roedd yn canolbwyntio ar y thema 'Cynllunio ar gyfer y Dyfodol'.
- 4.4 Yn yr un modd, roedd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gynllun adfer, a oedd yn cynnwys cadw cronfa o wirfoddolwyr cymunedol ymateb mewn argyfwng a sefydlu rhwydwaith cydnerth o fewn y trydydd sector i sicrhau bod rhagor o grwpiau cymunedol yn gallu cefnogi darparu gwasanaethau cymorth pe bai ail don.

- 4.5 Pwysleisiodd nifer o awdurdodau, fodd bynnag, fod cynlluniau adfer yn ddibynnol iawn ar gymorth gan adrannau eraill y cyngor drwy adleoli a fydd, yn ei dro, yn cael effaith ar gapasiti ehangach o fewn awdurdodau lleol. Roedd pwysau a risgiau ychwanegol fel adleoli staff a gwirfoddolwyr i gefnogi cyflwyno'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu ar lefel leol a rhanbarthol hefyd yn golygu ei bod yn anodd darganfod a oedd yr adnoddau presennol yn ddigonol i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw am gymorth yn y dyfodol.
- 4.6 Pwysleisiwyd y dylai awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaeth o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a defnyddwyr gwasanaeth i gyd fod yn rhan o gynllunio camau atal ac adfer fel bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu datblygu ar sail anghenion, galluoedd a sgiliau preswylwyr a chymunedau lleol.
- 4.7 Bu gweithlu'r awdurdodau lleol yn hynod o hyblyg a chadarn dros y misoedd diwethaf, ond roedd gan nifer o awdurdodau lleol bryderon bod rhai grwpiau staff yn llosgi'r gannwyll y ddau ben oherwydd y pwysau a roddir ar adrannau a thimau sy'n darparu gwasanaethau critigol. Pwysleisiwyd nad oedd llawer o staff a adleolwyd wedi cael amser i gael eu cefn atynt ac y byddent dan ragor o straen wrth iddynt ddychwelyd i'w rolau parhaol.
- 4.8 Nodwyd bod cyfran o weithlu awdurdodau lleol yn parhau i fod ar restr warchod, tra bod eraill yn dioddef neu'n gwella o Covid-19, yn ogystal â gorfod hunanynysu, a bydd hyn oll yn cael effaith ar lefelau staffio.
- 4.9 Yn ychwanegol at hyn, roedd pryderon y gallai cyfuniad o ail don o'r coronafeirws, epidemig posibl o'r ffliw, ynghyd â heintiau anadlol eraill ac achosion eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r feirws, olygu y byddai'r GIG yn wynebu straen digynsail ar ben y pwysau arferol yn ystod y gaeaf.

5. Gwersi ehangach a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

- 5.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg am eu barn am y blaenoriaethau ar gyfer awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector, a'r bobl a'r cymunedau y buont yn gweithio gyda nhw wrth ymateb i'r pandemig, ac adfer ohono, a hefyd eu barn am y cymorth pellach yr oedd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Roedd consensws ynghylch pwysigrwydd strwythurau cydgysylltu a chyflwyno effeithiol, cymorth ar gyfer iechyd meddwl, sector cymunedol a thrydydd sector cryf a hyfyw, cynhwysiant digidol ac amgylchedd galluogi cryfach ar gyfer gweithgaredd gwirfoddol.

Strwythurau cydlynu a chyflawni effeithiol

Mae angen ymgysylltu'n gynnar ag awdurdodau lleol ar ganllawiau a threfniadau gwarchod

- 5.2 Nododd awdurdodau lleol hefyd fod angen cydnabyddiaeth nad oedd un set o ganllawiau yn briodol ar gyfer pob lleoliad (er enghraifft, gofal seibiant a gofal preswyl hirdymor).
- 5.3 Galwodd yr ymatebwyr am ganllawiau clir ar unrhyw newidiadau i'r ymateb cenedlaethol i Covid-19 a chymorth i awdurdodau lleol ar ddatblygu negeseuon clir, cyfoes a phriodol i breswylwyr gan ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu.
- 5.4 Nododd nifer o awdurdodau lleol anawsterau gyda defnyddio a rhannu data o'r rhestr o gleifion a warchodir sy'n eiddo i'r GIG, a oedd yn rhwystro darparu gwasanaethau cymorth, fel y cynllun parseli bwyd. Roeddent yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherchnogaeth a rhannu data er mwyn hwyluso cydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

Cymorth ar gyfer iechyd meddwl

Roedd iechyd meddwl yn fater cyffredin a godwyd mewn perthynas â'r blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir

- 5.5 Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys: unigrwydd ac ynysigrwydd, yr effaith ar y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl presennol, yn enwedig pobl ifanc; gwasanaethau cymorth a chwmsela cyfyngedig; a phryder ymhlith preswylwyr bregus wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.
- 5.6 Bydd cymorth barhaus i grwpiau nad ydynt ar restr warchod yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar atal ynysigrwydd ac unigrwydd ymhlith aelodau mwyaf bregus y gymuned, drwy gadw

mewn cysylltiad dros y ffôn neu gael sgwrs ar stepen y drws. Pwysleisiodd awdurdodau lleol, er gwaethaf y saib o ran gwarchod, bod y cymorth hwn yn parhau i fod yn hanfodol.

Cefnogi sector cymunedol a thrydydd sector cryf a hyfyw

Galwodd cynghorau gwirfoddol sirol am gydnabyddiaeth ehangach o'r capasiti a'r galluoedd yn y gymuned a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra i anghenion a blaenoriaethau lleol

- 5.7 Galwodd cynghorau gwirfoddol sirol am gymorth ariannol hirdymor a chanllawiau i'r sector er mwyn cryfhau ac adeiladu ar y gwaith hwn. Cynigiodd sawl cyfranogwr eu syniadau ynghylch hyfywedd sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol, gan gynnwys nerfusrwydd ynghylch toriadau yn y dyfodol; effaith y lleihad mewn gwasanaethau ar gymunedau; a'r angen am ffyrdd newydd o feddwl a gweithio i ymateb i anghenion sy'n newid.
- 5.8 Nododd cynghorau gwirfoddol sirol fod ansicrwydd ynghylch trefniadau yn y dyfodol ar gyfer rhaglenni cyllido fel y Gronfa Gofal Integredig a Chyllid Trawsnewid yn golygu bod sector y gymuned a'r trydydd sector yn wynebu dyfodol ansicr a heriol, a allai arwain at leihad mewn gwasanaethau cymunedol hanfodol. Pwysleisiwyd bod darparu cymorth parhaus i grwpiau a sefydliadau cymunedol a thrydydd sector a thimau cymorth ardal gwirfoddol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallent barhau i weithredu a chefnogi preswylwyr yn yr hinsawdd sydd ohoni. Pwysleisiwyd bod gallu awdurdodau lleol i ddargyfeirio'r ffrydiau cyllido hyn wedi bod yn hanfodol o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y cyfyngiadau symud ac yn y cyfnod adfer, gan leihau'r galw am becynnau gofal dwys ac atgyfeiriadau at wasanaethau statudol.

Cymorth ar gyfer cynhwysiant digidol

Gelwir am ragor o gymorth i wella sgiliau digidol a mynediad i dechnoleg ddigidol ymhlith grwpiau agored i niwed a difreintiedig

- 5.9 Pwysleisiwyd bod cyllid i gefnogi gwaith cynhwysiant digidol, megis darparu cyfarpar a dyfeisiau digidol, wedi bod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol iawn yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, nododd y cyfranogwyr fod angen ragor o gyllid i gefnogi uwchsgilio a gweithgaredd hyfforddi, yn enwedig ymhlith grwpiau bregus a difreintiedig, i sicrhau y gallant fanteisio ar fuddion ariannol, iechyd a chymdeithasol mynd ar-lein.
- 5.10 Cafodd y cynlluniau cymorth ar gyfer cynhwysiant digidol a'r 'hyrwyddwr digidol' eu croesawu ac argymhellodd awdurdodau lleol y dylid ymestyn y rhain, gan ddefnyddio rhai

o'r unigolion sydd wedi cofrestru fel gwirfoddolwyr. Pwysleisiwyd bod cysylltedd yn parhau i fod yn rhwystr i lawer o aelwydydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac y dylid mynd i'r afael â hyn.

Cymorth ar gyfer gwirfoddoli

Mae angen cynnal y momentwm sydd wedi datblygu yn y maes gwirfoddoli

- 5.11 Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y gwirfoddolwyr a oedd yn cynnig cymorth i bobl agored i niwed ac ynysig yn sgil pandemig Covid-19. Mae gan lawer o'r grwpiau cymorth sydd wedi'u hunandrefnu a grwpiau cydfuddiannol a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig y potensial i gynyddu ymhellach lefelau cysylltiad cymdeithasol, cilyddiaeth ac ymddiriedaeth ar lefel y gymuned leol. Awgrymwyd bod angen i'r sector cyhoeddus a sefydliadau a grwpiau'r trydydd sector barhau â'r gwaith hwn er mwyn cynnal y momentwm.
- 5.12 Galwodd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen waith newydd er mwyn cryfhau gwaith gwirfoddoli lleol a chynyddu ei lefelau mewn ardaloedd penodol ac ymhlith grwpiau cymdeithasol penodol, yn enwedig ymysg y rhai a oedd yn llai tebygol o wirfoddoli. Ymhellach, pwysleisiwyd y dylid cynnal y momentwm sydd wedi datblygu yn y maes gwirfoddoli yn ystod y pandemig drwy bolisïau cefnogol, strwythurau a galluoedd ar gyfer ymgysylltu a gwirfoddolwyr a'u rheoli'n effeithiol, gan gynnwys adnoddau digonol.
- 5.13 Mynegodd awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol awydd i ystyried ymhellach sut i barhau a chymorth lleol a chymunedol yn y dyfodol. Yr her ar gyfer y misoedd nesaf ac yn y tymor hwy oedd sicrhau bod y seilwaith a'r capasiti ar gael i barhau â'r gwaith hwn.